

**Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A
DIWYLLIANT
23 MAWRTH 2023**

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Iau, 23 Mawrth 2023.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Teresa Carberry (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Paul Cunningham, Gladys Healey, Dave Mackie, Ryan McKeown, Andrew Parkhurst, Carolyn Preece, David Richardson a Jason Shallcross

AELODAU CYFETHOLEDIG: Mrs Lynne Bartlett a Lisa Allen

DIRPRWYON: Y Cynghorydd Mel Buckley (ar ran y Cynghorydd Gina Maddison), y Cynghorydd Ian Hodge (ar ran y Cynghorydd Bill Crease)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr: Dave Hughes ac Arnold Woolley

AELODAU PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD A'R

ECONOMI A OEDD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Dolphin, Mared Eastwood, David Evans, Richard Lloyd, Mike Peers, Vicky Perfect, Dan Rose a Roy Wakelam

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr: Roedd Marion Bateman, Helen Brown, Carol Ellis, Chrissy Gee, Paul Johnson, Richard Jones, Roz Mansell, Hilary McGuill, Debbie Owen a Antony Wren yn bresennol i arsylwi

CYFRANWYR:

Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden; y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)

Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth); Rheolwr Cludiant a Strategaeth Priffyrdd; Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio; Rheolwr Gorfodi a Goruchwyliwr Gorfodi; Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (ar gyfer eitem rhif 50 ar y rhaglen)

Uwch Reolwr Gwella Ysgolion (ar gyfer eitem rhif 51 ar y rhaglen)

Rheolwr Cyllid Strategol (Masnachol a Thai) a Rheolwr Datblygu Llyfrgelloedd (ar gyfer eitem rhif 52 ar y rhaglen)

Rheolwr Corfforaethol (Eiddo ac Asedau Corfforaethol) a Mr Liam Evans-Ford, Cyfarwyddwr Gweithredol, Theatr Clwyd (ar gyfer eitem rhif 53 ar y rhaglen)

HEFYD YN BRESENNOL:

Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

47. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Gwnaeth y Cynghorydd Carolyn Preece ddatgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu ar gyfer eitem rhif 8 ar y Rhaglen – Cynllun Busnes Theatr Clwyd a dywedodd y byddai hi'n gadael y cyfarfod cyn y drafodaeth ar yr eitem hon.

Gwnaeth y Cynghorydd Andrew Parkhurst ddatgan cysylltiad personol ar gyfer eitem 8 ar y Rhaglen - Cynllun Busnes Theatr Clwyd, gan ei fod yn aelod o Theatr Clwyd.

Dywedwyd wrth yr aelodau y dylen nhw, fel Llywodraethwyr Ysgol, sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn eu ffurflen Cod Ymddygiad ac os nad yw wedi'i chynnwys, dylen nhw ddatgan cysylltiad personol ar gyfer eitem 5 ar y Rhaglen. Datganodd y Cynghorydd Roy Wakelam gysylltiad personol gan fod aelod o'r teulu wedi'i benodi'n Llywodraethwr Ysgol.

48. COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2023 eu cymeradwyo a'u cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Dave Mackie a'r Cynghorydd Carolyn Preece.

Materion yn Codi

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst at ei gwestiynau ar fodel y strwythur codi tâl ar gyfer gwasanaeth cerddoriaeth yr ysgol, a ddangosir ar dudalen 8 y cofnodion. Dywedodd mai'r pwynt yr oedd yn ei wneud yn y cyfarfod oedd bod y tâl fesul awr o £38.20 yr un peth ar gyfer sesiynau grŵp a sesiynau unigol yn wir o ran y gost i ysgolion. Nid dyma'r sefyllfa o ran y gost i rieni neu i eraill sy'n ariannu gwersi cerddoriaeth eu plant, gan fod cymhorthdal yn cael ei gynnig i sesiynau grŵp ond yr oedd gwersi unigol felly'n ddrytach ac yn costio mwy nag y gellid ei gyflawni gan wersi preifat.

Cytunwyd diwygio'r cofnodion i adlewyrchu'r pwynt a wnaeth y Cynghorydd Parkhurst.

PENDERFYNWYD:

Bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2023 yn cael eu cymeradwyo'n gofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

49. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Wrth gyflwyno'r adroddiad, cadarnhaodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu nad oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol a rhoddwyd trosolwg o'r eitemau a drefnwyd ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor ar 11 Mai.

Gan gyfeirio at y Camau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf, cadarnhaodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu fod hysbysiad e-bost wedi'i anfon at yr Aelodau ar gyfer y Gweithdy ar Ddarpariaeth Ieuenctid Integredig a fydd yn cael ei gynnal ar 26 Gorffennaf am 2.00 pm. Mae llythyr hefyd wedi'i anfon at bob Pennaeth am y Gwasanaeth Cerddoriaeth i Ysgolion. Gan gyfeirio at y cwestiynau a gododd y Cynghorydd Dave Mackie, cadarnhawyd bod y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) wedi cael ymateb gan Aura yn egluro bod y data dangosyddion

perfformiad yn cael ei ddarparu'n flynyddol. Byddai adroddiadau perfformiad chwarterol diwedd y flwyddyn yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor ym mis Gorffennaf a chytunodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu i wirio bod y wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece yr argymhellion, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd Dave Mackie.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu nad oedd wedi'u cwblhau.

50. PARCIO MEWN YSGOLION

Cyn ystyried yr adroddiad, dywedodd y Cadeirydd fod pryderon wedi'u mynegi gan drigolion i bob Aelod ynghylch parcio mewn ysgolion. Dywedodd hi fod hyn yn dal i fod yn fater sy'n parhau, na ellir dibynnu ar un ateb i'w ddatrys. Gwnaeth hi ddiolch i'r Aelodau a oedd wedi anfon e-bost ati yn mynegi eu pryderon a'u pwyntiau yr oedden nhw'n dymuno eu codi i'r Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a chroesawodd hi Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi i'r cyfarfod, a oedd wedi'u gwahodd o ganlyniad i fater o fewn cylch gwaith y ddau Bwyllgor. Gwnaeth hi ddiolch i awduron yr adroddiad am egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau'r partïon i gyd a weithiodd i ddatrys y mater hwn.

Gwnaeth y Cadeirydd hefyd groesawu Mr Andrew Dunbobbin, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i'r cyfarfod, sy'n bresennol er mwyn rhoi gwybodaeth am swyddogaeth yr Heddlu pan fo pryderon yn ymwneud â pharcio mewn ysgolion.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg i'r Aelodau o'r problemau sy'n bodoli ar hyn o bryd yng nghyffiniau ysgolion y Sir, ac amlinellodd swyddogaethau a chyfrifoldebau'r partïon i gyd er mwyn ceisio dull cydweithredol a datrysiad effeithiol. Rhoddodd wybodaeth ynghylch sut yr oedd y timau ym Mhortffolio'r Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth wedi'u trefnu, yr adnoddau oedd ar gael i gefnogi hyn, sut yr oedd y ddeddfwriaeth yn gweithio a'r hyn y gellid ei gyflawni.

Dywedodd y Rheolwr Cludiant fod parcio ger ysgolion yn broblem hanesyddol sydd wedi effeithio ar bob awdurdod lleol a'r rhesymau am hyn oedd lleoliad ysgolion, gyrru anystyriol a pheryglus a pharcio gan unigolion oherwydd bod mwy o rieni yn gyrru i'r ysgol yn hytrach na cherdded. Rhoddwyd gwybodaeth am fesurau Teithio Llesol a gwell isadeiledd a oedd yn cynnwys llwybrau mwy diogel yn y cynlluniau cymunedol, ynghyd â throsolwg o'r cyfyngiadau ar yr hyn y gellid ei gyflawni ar safleoedd ysgolion. O safbwynt diogelwch ar y ffyrdd, ymddygiad rhieni a achosodd lawer o'r problemau yn

ymwneud ag ysgolion, a oedd hefyd yn gysylltiedig â'r tagfeydd ehangach ar y rhwydwaith ffyrdd, llygredd, ac allyriadau.

Adroddodd y Rheolwr Cludiant y cafwyd llawer o gwynion ynghylch parcio a thagfeydd traffig ynghyd â cheisiadau am adolygiadau diogelwch ffyrdd a bu'n rhaid i'r tîm Traffig a Chludiant bach sy'n cefnogi hyn gynnal asesiadau, dylunio cynlluniau ac yna gwneud cais am arian grant oedd ar gael. Gan gyfeirio at Orfodi, rhoddodd wybodaeth am y tîm bach o Swyddogion Parcio Sifil yr oedd gofyn iddyn nhw hefyd gyflawni dyletswyddau gorfodi eraill. Cafodd amlinelliad o'r ardaloedd gorfodi priffyrdd y cafodd eu cwmpasu gan Heddlu Gogledd Cymru a'r Cyngor a'r hierarchaeth o ran cyfrifoldeb yn ymwneud â rheoli traffig a pharcio, ei nodi yn yr adroddiad.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Rheoleiddio drosolwg o'r Tîm Gorfodi Parcio Sifil, a oedd yn cynnwys 10 Swyddog, 1 Goruchwyliwr ac 1 Rheolwr. Roedd gan y tîm hwn gylch gwaith eang iawn, ac amlinellodd hi'r traffig, yr amgylchedd a meysydd gwaith eraill yr oedden nhw'n ymwneud â hwy, a nodi bod y galw ar y tîm hwn yn cynyddu. Rhoddwyd gwybodaeth am orfodi yn y 78 o ysgolion, ac roedd gan 25 o ysgolion gyfyngiadau traffig gweithredol ar waith ynghyd ag esboniad am yr amrywiaeth o gyfyngiadau traffig. Trefnwyd bod Swyddogion Gorfodi yn mynd i ysgolion bob dydd yn enwedig pan fyddai llawer o gwynion wedi'u gwneud neu pan fyddai cwynion parhaus. Gwnaethon nhw wisgo iwniform weladwy a chadarnhau bod y rhan fwyaf o rieni yn cydymffurfio â'r rheoliadau traffig a oedd ar waith pan yr oedden nhw'n bresennol, gan nodi y bu diffyg cydymffurfio pan nad oedden nhw'n bresennol. Ceisiodd y tîm ymweld â phob ysgol, ond o ganlyniad i faint y tîm a nifer yr ysgolion nid oedd yn bosibl mynd i bob ysgol bob dydd gan fod yr adnoddau wedi'u gwasgaru ar draws y rhwydwaith cyfan.

Eglurodd y Rheolwr Cludiant fod parcio ar ffyrdd clir yn golygu y byddai unigolyn yn cael dirwy ar unwaith, ond bod llinellau melyn dwbl a sengl yn caniatáu i gar stopio am hyd at 5 munud. Roedd y broses Gorchmynion Rheoleiddio Traffig yn broses gymhleth a drud iawn a gallai gymryd rhwng 6 mis a 2 flynedd i'w chwblhau a phan fyddai'r cyfyngiadau hyn ar waith, bydden nhw hefyd yn effeithio ar y trigolion lleol. Eglurwyd hefyd am y defnydd o system adnabod rhifau cerbydau yn awtomatig (ANPR) a Theledu Cylch Caeëdig (CCTV) ond dim ond pan fo llinellau igam-ogam a manau croesi "ysgol - cadwch yn glir" yn bresennol yr oedd y rhain yn weithredol.

Gwnaeth yr Aelodau nifer o sylwadau a gofyn llawer o gwestiynau a oedd ynghlwm yn Atodiad 1 y cofnodion. Byddai'r sylwadau a wnaeth yr Aelodau yn cael eu casglu ar gyfer gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen i fod yn sail i'w hymchwiliad i ddatrys y mater hwn.

Dywedodd Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden fod hwn yn broblem ar gyfer pob ysgol a bod cost gosod cyfyngiadau y tu allan i ysgolion hefyd yn ddrud iawn. Roedd hwn yn fater i rieni, a oedd yn achosi'r problemau hyn trwy eu gweithredoedd ac apeliodd arnyn nhw i ystyried a oedd angen parcio wrth gatiâu'r ysgol neu ar balmentydd. Cytunodd â'r cynnig i sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen, a fyddai'n galluogi Aelodau Lleol i dynnu sylw at eu pryderon unigol am eu hysgolion. Roedd yn credu y dylai enghreifftiau o arferion

da, fel bysiau cerdded, hefyd gael eu hystyried yn rhan o waith y Grŵp Tasg a Gorffen.

Gwnaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ddiolch i'r Pwyllgor am y gwahoddiad a nododd mai ef oedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd cyntaf yng Ngogledd Cymru i gynnwys diogelwch ffyrdd yn ei Gynllun Heddlu a Throsedd. Dywedodd ei fod yn falch o weithio gyda'r Awdurdod a'r holl Awdurdodau Lleol ledled Gogledd Cymru i fynd i'r afael â'r mater hwn y tu allan i ysgolion i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel. Adroddodd ar y gwaith ymchwil yr oedd ei dîm wedi'i wneud, gan edrych ar ba gynlluniau oedd ar gael yng Nghymru a Lloegr a gwnaeth sylwadau ar gynllun strydoedd Ysgol yn Redbridge, Cyngor Bwrdeistref yn Llundain. Roedd gan y Cynllun barthau dynodedig a oedd yn sicrhau bod rhai strydoedd yn cau neu fod traffig yn cael ei ddargyfeirio ar amseroedd penodol i leihau'r pwysau ar yr ysgol a galluogi plant i gyrraedd yr ysgol yn ddiogel. Cysylltwyd â Chyngor Bwrdeistref Redbridge i gael gwell dealltwriaeth o sut y gwnaethon nhw'r gwaith hwn a chytunodd rannu'r ddolen i'r wefan â'r Aelodau sy'n cynnwys gwybodaeth, ar ôl y cyfarfod. Gan gyfeirio at argymhellion yr adroddiad, dywedodd y byddai'n croesawu'r cyfle i weithio gyda'r Grŵp Tasg a Gorffen a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at weld sut yr oedd hyn yn datblygu i sicrhau bod plant mor ddiogel ag y gallen nhw fod yn mynd i'r ysgol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden fod llawer o'r mesurau lliniaru yn ymwneud ag adnoddau ariannol ychwanegol. Roedd yn gobeithio pan fyddai'r Grŵp Tasg a Gorffen yn cyflwyno ei argymhellion bod Aelodau o'r siambr yn cefnogi unrhyw gynnydd angenrheidiol o ran costau staffio a chostau cynnal a chadw priffyrdd. Roedd yn gobeithio y byddai'r Grŵp Tasg a Gorffen yn canolbwyntio ar addysgu neu newid agwedd y lleiafrif bach o rieni a oedd yn achosi'r problemau hyn.

Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn deall yr heriau yr oedd pob gwasanaeth cyhoeddus yn eu hwynebu o fewn eu cyllidebau priodol yn llwyr ac yr oedden nhw'n dymuno cynnig rhywfaint o gymorth ariannol i archwilio cynllun peilot a nodwyd drwy'r Grŵp Tasg a Gorffen. Byddai'n croesawu'r cyfle i weithio gyda'r Grŵp Tasg a Gorffen a dywedodd fod posibilrwydd o wneud cais am gyllid drwy Ymddiriedolaeth Gofal Cyngor Carchardai (PACT) ac Arloesi i Dyfu, a fyddai wedyn yn gorfod mynd drwy'r broses ymgeisio.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece yr argymhellion, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r materion hanesyddol sy'n gysylltiedig â pharcio o fewn cyffiniau ysgolion, a chydabod cyfrifoldebau defnyddwyr y priffyrdd yn unol â gofynion Rheolau'r Ffordd Fawr;
- (b) Bod y Pwyllgor yn nodi'r hierarchaeth o ran cyfrifoldeb yn ymwneud â rheoli traffig o fewn cyffiniau ysgolion ac yn cydnabod rôl gorfodi fel mesur adweithiol yn hytrach na dull o atal digwyddiad yn y lle cyntaf; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo creu Grŵp Tasg a Gorffen ar y cyd er mwyn ymchwilio i'r materion yn fanylach a datblygu dull cydweithredol ac ataliol â budd-ddeiliaid allweddol, a fydd yn cynnwys:-

- Aelodau Etholedig o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuencid a Diwylliant a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi;
- Swyddogion o bortffolios Addysg ac Ieuencid a Gwasanaethau Stryd a Chludiant;
- Penaethiaid
- Gwahodd Aelodau Etholedig yn ôl yr angen;
- Gwahodd swyddogion o Heddlu Gogledd Cymru yn ôl yr angen.

51. CYNLLUN GWEITHREDU CYMRU WRTH-HILIO

Cyn ystyried yr adroddiad, croesawodd y Cadeirydd yr adroddiad a dywedodd fel cyn-athrawes ei bod hi'n ymwybodol o'r gwaith a gaiff ei wneud mewn ysgolion i dynnu sylw at y mater hwn. A hithau'n aelod o Ddinas Noddfa Sir y Fflint cymeradwyodd fod Cymru'n Genedl Noddfa a dywedodd fod amrywiaeth yn cyfoethogi bywydau a bod bywydau unigolion yn gwella drwy gael profiad o ddiwylliannau ychwanegol. Roedd addysg yn fodd o sicrhau newid cymdeithasol, chwalu stereoteipiau a chelwydd a dyna pam y croesawodd hi'r adroddiad.

Gwnaeth Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion) ddiolch i'r Cadeirydd am ei sylwadau a chyflwynodd Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol y cafodd ei ddatblygu ar y cyd ag amrywiaeth eang o gymunedau a sefydliadau ledled Cymru.

Ar 20 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat sy'n cael ei ariannu gan y llywodraeth weithio yn ôl y Camau Gweithredu a nodir yn y Cynllun. Roedd y weledigaeth yn y Cynllun yn weithredol, yn ddeinamig ac yn caniatáu ar gyfer newid pan fo angen i sicrhau bod y Cynllun yn briodol i fodloni gweledigaeth 2030 a osododd LIC. Amlinellodd yr Uwch Reolwr y meysydd polisi sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun sy'n ymwneud ag Addysg a'r Gymraeg a rhoddodd wybodaeth am yr amcanion a'r blaenoriaethau ar gyfer Addysg ac ysgolion yn enwedig yn y Cwricwlwm newydd wrth i Gymru fod y wlad gyntaf i wneud elfen o'r Cwricwlwm yn orfodol sef bod disgyblion yn dysgu am amrywiaeth ethnig yng Nghymru a'r byd ehangach. Roedd rhywfaint o'r gwaith hwn eisoes yn cael ei wneud mewn ysgolion trwy weithdai penodol, cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a modiwlau e-ddysgu ar gyfer ymarferwyr mewn ysgolion sy'n gweithio gyda phartneriaid ar gyfer Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru a Chymorth i Ddiodefwyr Cymru. Roedd ysgolion hefyd yn cael eu cyfeirio trwy Hwb at adnoddau y gellid eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.

Adroddodd yr Uwch Reolwr ar y gwaith a wnaed ar y portffolio i gefnogi'r Cynllun Gweithredu oedd yn amrywiaeth eang o weithgareddau a mesurau y gellid eu defnyddio wrth symud ymlaen. Trafododd y Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol ymateb y Cyngor i'r Cynllun Gweithredu y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Wrth gyfeirio at yr argymhellion yn yr adroddiad, gofynnodd yr Uwch Reolwr am farn y Pwyllgor ar ba mor aml y dylid cyflwyno adroddiad diweddar i gyfarfodydd yn y dyfodol.

Croesawodd y Cynghorydd Paul Johnson yr adroddiad a'r Athroniaeth ar gyfer Plant, Cydweithwyr a Chymunedau (P4C) a oedd, yn ei farn ef, yn caniatáu i blant ofyn cwestiynau am yr hyn sy'n deg, yn annheg, yn gyfiawn ac yn anghyfiawn. Cyfeiriodd at ei amser yn gweithio fel Swyddog Addysg i UNICEF a oedd yn egluro i blant beth oedd eu hawliau nhw yn yr ysgol yr oedd yn eu galluogi nhw i ddeall nid yn unig beth oedd eu hawliau nhw ond hawliau disgyblion eraill hefyd ac yr oedd yn credu bod dealltwriaeth plentyn o'i hawliau yn rhan o'r broses honno.

Roedd Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden yn cytuno â'r sylwadau y cafodd eu gwneud. Roedd yn credu bod ysgolion Sir y Fflint yn gwneud gwaith rhagorol yn y maes hwn a gwnaeth ddiolch i'r staff am y camau a gymeron nhw i sicrhau bod Sir y Fflint yn sir deg o ran hil.

Siaradodd nifer o Aelodau o blaid yr adroddiad a diolch i'r Swyddogion am y gwaith a wnaed.

Gwnaeth y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid) ddiolch i'r Aelodau am eu sylwadau cadarnhaol ar yr adroddiad ac ategodd y diolchiadau i'r Uwch Reolwr a'i thîm. Gan gyfeirio at yr argymhelliad sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad, teimlai y byddai'n bosibl cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor a fyddai'n cynnwys trosolwg o'r camau a gymerwyd, tystiolaeth o effeithiau'r camau hynny ac unrhyw setiau data priodol.

Gwnaeth yr Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion) ddiolch i'r Aelodau am eu cefnogaeth a'u cydnabyddiaeth o'r gwaith a wnaed gyda chydweithwyr mewn ysgolion. Gwnaeth hi ddiolch i Claire Sinnott a'r Tîm Ysgolion Iach oherwydd bod llawer o'r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn ysgolion eisoes.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylai argymhelliad 3, sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad, gael ei ddiwygio i adlewyrchu bod y Pwyllgor yn cael adroddiadau blynyddol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth. Cafodd yr argymhelliad, sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad, ynghyd â'r diwygiad yr awgrymodd y Cadeirydd, ei gynnig gan y Cynghorydd Gladys Healey a'i eilio gan Carolyn Preece.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi gweledigaeth Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r camau gweithredu a nodir ar gyfer addysg;
- (b) Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi cael digon o sicrwydd ynghylch gwaith y Portffolio Addysg ac Ieuencid wrth fodloni gofynion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol;
- (c) Bod y Pwyllgor yn cael adroddiadau blynyddol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth a'i ychwanegu at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

52. DATBLYGIAD CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar Gynllun y Cyngor 2023-28. Dywedodd fod adolygiad llawn wedi'i gynnal i sicrhau priodoldeb a pherthnasedd y blaenoriaethau, yr is-flaenoriaethau a'r amcanion lles wrth symud ymlaen. Roedd hwn yn cynnwys adolygiad o Gynllun cyfredol y Cyngor 2022-23 i bennu:

- Camau blaenoriaeth a fydd yn parhau o 2023 ymlaen ar gyfer sylw parhaus;
- Camau blaenoriaeth y gellir eu tynnu gan eu bod nhw wedi'u cwblhau neu'n weithredol (mynd yn eu blaen yn ôl yr arfer); a
- Meysydd blaenoriaeth, camau gweithredu a mesurau newydd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer 2023-28

Dywedodd y Prif Weithredwr fod blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023-28 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor wedi'u hamlinellu a'u hatodi yn Atodiadau 1 a 2 yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst at y mesur ar gyfer gostwng nifer y gwaharddiadau parhaol neu waharddiadau cyfnod penodol fel y dangosir ar dudalen 50 yr adroddiad a chwestiynodd bod cynnydd i'w weld o ran y targed o'r data sylfaenol. Mewn ymateb i hyn, eglurodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) bod y gwahaniaeth rhwng y data sylfaenol a'r targed oherwydd iddo gael ei gofnodi yn 2021/22 yn ystod cyfnod pan nad oedd data'n cael ei gasglu o ganlyniad i'r pandemig. O ganlyniad i'r pandemig bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant a phobl ifanc a oedd yn cael anhawster cynnal eu presenoldeb yn yr ysgol.

Gofynnodd y Cynghorydd Parkhurst o ba rif y gostyngodd y niferoedd. Os nad oedd y llinell sylfaen yn briodol o ganlyniad i'r pandemig, beth oedd niferoedd y llinell sylfaen bresennol. Mewn ymateb i hyn dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) nad oedd ganddi'r ffigyrau cyfredol wrth law ond y byddai'n fodlon rhoi'r wybodaeth ar ôl y cyfarfod.

Dywedodd y Cynghorydd Dave Mackie bod adroddiad ar waharddiadau o'r ysgol i fod i gael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor. Gofynnodd a allai'r adroddiad gynnwys yr hyn yr oedd ysgolion yn ei wneud a pha gyfleusterau ychwanegol oedd yn cael eu cyflenwi. Credai fod hwn yn fater ehangach oherwydd bod ysgolion wedi newid sut maen nhw'n gweithio er mwyn effeithio ar nifer y gwaharddiadau parhaol neu eu lleihau nhw, a oedd yn amlygu pa mor fawr oedd y broblem hon.

Mewn ymateb i hyn, cyfeiriodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) at y troednodyn a oedd yn nodi bod y ffigur hwn wedi ystyried y sefyllfa cyn Covid o ran nifer y gwaharddiadau. Dywedodd hi y byddai adroddiad manwl yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai a fyddai'n amlinellu'r dulliau a'r systemau newydd yr oedd yr awdurdod lleol wedi'u mabwysiadu. Byddai'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn mae'r ysgolion yn ei wneud fel addasiadau i'r cwricwlwm, eu cynigion o ran modelau amgen a gwaith ar draws y Portffolio gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaethau Ieuenctid.

Dyweddod y Cynghorydd David Mackie fod y darpariaethau ychwanegol yr oedd eu hangen yn gostus iawn i bob ysgol yr oedd eu cyllidebau dan bwysau. Gofynnodd a oedd y cyfleusterau ychwanegol yn debygol o barhau mewn ysgolion wrth ystyried eu cyllidebau. Mewn ymateb i hyn, gwnaeth y Prif Swyddog gydnabod yr heriau yn ymwneud â chyllidebau ysgolion a dywedodd fod ysgolion yn parhau i roi anghenion eu dysgwyr yn gyntaf wrth wneud penderfyniadau. Cafwyd sgil-effaith sylweddol ar y Portffolio hefyd oherwydd pan nad oedd pobl ifanc bellach yn yr ysgol, yr oedd cyfrifoldeb statudol yn dal i fod o ran gwneud darpariaeth briodol ar eu cyfer nhw. Roedd y pwysau hwn o ran costau yn cael ei reoli o fewn y Portffolio a chroesawodd hi unrhyw arian grant gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cydnabod bod problemau yn dal i fod ar ôl y pandemig a gwnaeth y Portffolio ddefnydd effeithiol o'r cyllid hwnnw pan fyddai'n bosibl.

Cafodd yr argymhelliad, sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Dave Mackie a'i eilio gan y Cynghorydd Carolyn Preece.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn cefnogi dogfennau Rhan 1 a Rhan 2 Cynllun y Cyngor 2023-28 sy'n amlinellu'r camau gweithredu, y mesurau a'r risgiau sy'n sail i flaenoriaethau, is-flaenoriaethau ac amcanion lles Cynllun y Cyngor 2023-28.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (HAWL I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol oherwydd ystyrir ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

53. CYNLLUN BUSNES THEATR CLWYD

Croesawodd y Cadeirydd Mr Liam Evans-Ford a'r Rheolwr Corfforaethol i'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol a Mr. Liam Evans-Ford yr adroddiad ar y cyd a oedd yn amlinellu cyfrifon masnachu Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd a chrynodeb o elfennau allweddol Cynllun Busnes Theatr Clwyd 2023-2029.

Cafodd yr argymhelliad, sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Dave Mackie a'i eilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad i'r Cabinet.

54. AELODAU'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.45 pm)

.....
Y Cadeirydd